Caffael

Beth mae Adroddiad yr Adolygiad Caffael yn ei olygu i Chyrff Cyhoeddus a Llywodraeth Cymru

Beth yw gweledigaeth y Comisiynydd?

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi cyfle i ni drawsnewid y ffordd y mae caffael yn cael ei ddarparu yng Nghymru. Trwy symud tuag at ddull sy'n seiliedig ar ganlyniadau, gallwn sicrhau bod y £6.3 biliwn a werir yn flynyddol yn sicrhau'r canlyniadau gorau ar draws pob un o bedair elfen llesiant ac yn helpu i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Caffael dan y Chwydd Wydr, Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020

Sut gall y weledigaeth hon gyfrannu at y 7 nod llesiant?



Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang

- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a'u cyfraniad at newid yn yr hinsawdd
- Annog mwy o ddinasyddiaeth foesegol a byd-eang
- Cadwyni cyflenwi moesegol·
- Cytundebau cyflenwyr yn cymryd yn ôl lle mae'r cyflenwr yn dychwelyd y cynnyrch ar ddiwedd ei oes i'w ail-ddefnyddio, ei ail-weithgynhyrchu a'i ailgylchu

Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu

- Adlewyrchu amrywiaeth a diwylliant ein holl gymunedau·
- Sicrhau bod diwylliant yn cael ei ystyried yn rhan gynhenid o ddatblygu cynaliadwy mewn contractau caffael

Cymru Iachach

- Cefnogi gwell iechyd corfforol a meddyliol·
- Bydd caffael bwyd lleol iach o ansawdd da yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd·
- Cydweithio traws-sector fel bod y sector iechyd yn ymwneud â gweithgareddau caffael ehangach.

Cymru Gydnerth

- Lleihau'r defnydd o adnoddau naturiol a hyrwyddo economi gylchol·
- Gwella ein hamgylchedd naturiol a gwarchod bioamrywiaeth Cymru

Cymru o Gymunedau Cydlynus

- Mentrau cymdeithasol ffyniannus a busnesau bach a chanolig eu maint·
- Cyflwyno gwerth cymdeithasol trwy'r holl gontractau caffael·
- Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus flaenoriaethu sut y gallant gydweithredu a defnyddio gwario i sicrhau'r gwerth cymdeithasol mwyaf posibl.

Cymru sy’n Fwy Cyfartal

- Cyflawni gwaith gweddus gydag amodau cyflog teg a chyfartal·
- Prosesau sy'n ystyried ymdrechion i greu lleoedd gwaith mwy cynhwysol ac effaith ar gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn fyd-eang

Cymru Lewyrchus

- Cefnogi cyfleoedd cyflogaeth, sgiliau a hyfforddiant lleol i bobl o bob oed
- Gweithio gyda chadwyni cyflenwi lleol i gynyddu prentisiaethau sydd ar gael i bobl ifanc, leol
- Ffocws ar yr Economi Sylfaenol
- Defnyddio cadwyni cyflenwi lleol i leihau allyriadau carbon·
- Adeiladau a seilwaith di-garbon, effeithlon o ran adnoddau

Beth allwch chi ei wneud i gyfrannu at y weledigaeth hon ar gyfer y dyfodol?*

Fy argymhelliad allweddol i Lywodraeth Cymru yn rhinwedd eu swydd yw:

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Canolfan Ragoriaeth Caffael ar gyfer gwella cydgysylltu, cydweithredu a darparu cefnogaeth ymarferol i gyrff cyhoeddus wrth iddynt arfer eu swyddogaethau caffael, yn benodol mewn perthynas â'r Ddeddf

- Byddai datblygu'r Ganolfan Ragoriaeth hon yn gofyn am adolygiad a diwygiad hollgynhwysfawr o'r tirwedd caffael bresennol (strwythurau, rhwydweithiau, partneriaethau a mentrau) gyda darpariaeth adnoddau i adeiladu capasiti a chynorthwyo gweithredu.

Dylai'r Ganolfan Ragoriaeth Gaffael:

- Adolygu a diwygio strwythurau ar gyfer atebolrwydd cenedlaethol a sefydlu mecanwaith priodol i graffu ar gynnydd mewn gweithredu. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn flynyddol ar y modd y mae gwariant cyhoeddus cenedlaethol yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol·
- Datblygu mecanwaith neu offeryn i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i fonitro ac adrodd yn gyson ar y Ddeddf (gan adeiladu o bosibl ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar werth cymdeithasol a'r fframwaith TOMS newydd) gan ddangos sut mae eu gwariant ar gaffael yn cyflawni eu nodau a'u hamcanion llesiant.

Yn ogystal, dylai eu hadroddiad blynyddol (ar gynnydd gyda'r Ddeddf) nodi'n glir sut mae eu holl wariant caffael eu hunain, a'u gwariant grantiau, yn cyfrannu at gyflawni eu hamcanion llesiant, ac yn ei tro y saith nod llesiant cenedlaethol.

*Dim ond yr argymhellion sydd fwyaf perthnasol i'ch gwaith chi a'ch tîm yw'r rhain. Mae mwy o argymhellion wedi'u cynnwys yn yr adran 'Caffael dan y Chwydd Wydr' yn adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, yr hoffech edrych arnynt efallai.

Beth allwch chi ei wneud i gyfrannu at y weledigaeth hon ar gyfer y dyfodol?*

Rwyf hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru (yn rhinwedd eu swydd fel arweinydd):

- Sicrhau bod y Rhaglen Lywodraethu newydd yn nodi'n glir sut y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu arweinyddiaeth strategol ac ymrwymiad i gefnogi a chyflawni canlyniadau caffael ehangach, gan ddefnyddio iaith sy'n gyson â'r Ddeddf.·
- Sicrhau bod y Datganiad Polisi Caffael newydd yn dangos yn glir sut y bydd yn cynorthwyo cyrff cyhoeddus i wireddu dyheadau'r Ddeddf ym maes caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru. Dylai'r Datganiad hwn, ynghyd â'r cynnydd i gyflawni'r ymrwymiadau, gael ei hadolygu a'u hadrodd yn flynyddol.
- Sicrhau fod pob fframwaith caffael cenedlaethol yn y dyfodol yn cyd-fynd â, ac yn cyfrannu at, y saith nod llesiant cenedlaethol ac yn defnyddio'r pum dull o weithio a nodir yn y Ddeddf.
- Adolygu'r holl ganllawiau a phecynnau cymorth sydd ar waith ar hyn o bryd i gefnogi caffael cynaliadwy a mesur / monitro buddion cymunedol a / neu gwerth cymdeithasol, a chyhoeddi cynllun clir yn amlinellu sut y bydd y rhain yn cael eu diwygio / hatgyfnerthi i alluogi ymagwedd cyson, fel y gall cyrff cyhoeddus adrodd ar y canlyniadau llesiant sy'n cael eu cyflawni.
- Er mwyn cwrdd â thargedau allyriadau carbon dylai pob corff cyhoeddus nodi'n glir sut y maent wedi ystyried effaith carbon eu penderfyniadau caffael ac yn achos contractau adeiladu neu seilwaith dylent ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau fod yn carbon sero net dros eu hoes.
- Monitro cynnydd gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Rhaid adrodd ar hyn yn yr adroddiadau blynyddol ar gyflawni eu hamcanion llesiant ar gyfer Llywodraeth Cymru parthed y canlyniadau cyffredinol sy'n cael eu cyflawni ledled Cymru a hefyd gan gyrff cyhoeddus unigol.

*Dim ond yr argymhellion sydd fwyaf perthnasol i'ch gwaith chi a'ch tîm yw'r rhain. Mae mwy o argymhellion wedi'u cynnwys yn yr adran 'Caffael dan y Chwydd Wydr' yn adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, yr hoffech edrych arnynt efallai.

Beth allwch chi ei wneud i gyfrannu at y weledigaeth hon ar gyfer y dyfodol?*

Rwyf hefyd eisiau i Gyrff Cyhoeddus ddilyn yr argymhellion hyn:

- Dylai uwch arweinyddiaeth adolygu eu hymagwedd tuag at gaffael a'u gweithgareddau i nodi cyfleoedd i facsimeiddio effaith cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol penderfyniadau gwariant, gan osod camau clir sy'n dangos sut mae caffael yn cynorthwyo cyflawni eu hamcanion llesiant sefydliadol.

- Unwaith y mae mecanwaith neu offeryn yn cael ei ddatblygu a'i fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru, dylai pob corff cyhoeddus fod yn ei ddefnyddio i fonitro ac adrodd yn glir ar ei gweithgareddau, mewn ymarferion caffael unigol ac yn gyffredinol, a'r modd y mae eu gwariant ar gaffael yn cyflawni nodau ac amcanion llesiant.
  - Dylid adrodd ar gyflawni eu hamcanion llesiant yn yr adroddiadau blynyddol.
  - Er mwyn osgoi dryswch iaith a chysylltu'n glir â gofynion statudol y Ddeddf dylai'r derminoleg cael ei diwygio i adlewyrchu iaith y Ddeddf.

- Bydd y Ganolfan Ragoriaeth Caffael a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn gweithredu fel porth canolog i gefnogi cydweithio a gweithredu traws-sector. Mewn cydweithrediad ag eraill dylai Llywodraeth Cymru adolygu grwpiau a rhwydweithiau presennol a rhwydweithiau i wella cysylltiad rhwng gweithredu llywodraeth leol, iechyd, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a rhanbarthau, ynghyd â'r trydydd sector a'r sector preifat.

- Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus flaenoriaethu sut y gallant gydweithio a defnyddio gwariant i facsimeiddio gwerth cymdeithasol, cyfrannu at eu hamcanion llesiant, a gwella llesiant ar lefel leol.

*Dim ond yr argymhellion sydd fwyaf perthnasol i'ch gwaith chi a'ch tîm yw'r rhain. Mae mwy o argymhellion wedi'u cynnwys yn yr adran 'Caffael dan y Chwydd Wydr' yn adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, yr hoffech edrych arnynt efallai.

Newid ein hymagwedd at Gaffael

Enghreifftiau gan gyrff cyhoeddus:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
'Theatrau cynaliadwy'
Yn 2019, BIP Caerdydd a'r Fro oedd y Bwrdd Iechyd cyntaf i gyhoeddi argyfwng hinsawdd ac maent wedi cymryd mesurau i gyflwyno theatrau cynaliadwy. Mae hyn yn tynnu sylw at sut y gellir defnyddio caffael i gefnogi cyflawni eu canlyniadau strategol ac yn cefnogi cyflawni eu hamcan llesiant i 'leihau niwed, gwastraff ac amrywiad yn gynaliadwy, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ni'

Cyngor Sir y Fflint
'Polisi Caffael Gwerth Cymdeithasol'
Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth gwerth cymdeithasol, polisi caffael gwerth cymdeithasol ac wedi penodi swyddog gwerth cymdeithasol i'w cefnogi i gyflawni amcanion strategol yn eu cynllun llesiant, ac wedi ymgorffori llesiant a gwerth cymdeithasol ehangach mewn comisiynu a chaffael. Eu dull yw "Mae gwerth cymdeithasol yn edrych y tu hwnt i gost ariannol gwasanaeth ac yn ystyried pa fuddion ychwanegol ehangach y gellir eu cynhyrchu i'r gymuned. Bydd gweithredu'r Strategaeth Gwerth Cymdeithasol yn elfen allweddol wrth gyflawni'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn galluogi'r Cyngor a phartneriaid i greu adnoddau newydd ar gyfer ffrydiau gwaith â blaenoriaeth".

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
"Ymgysylltiad Diwylliannol Cymunedol"
Yn ystod pandemig Covid-19, penderfynodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ganslo caffael prosiect gwerth £4 miliwn ar gyfer cyfleuster storio a buddsoddi'r cyllid ar gyfer hyn ar ymgysylltu â'r gymuned trwy ddigideiddio. Mae'r dull hwn yn cyfrannu at eu hamcan llesiant i "gyflwyno ffyrdd newydd o ddehongli ein casgliadau i ystod eang o gynulleidfaoedd". Mae'r canlyniad caffael hwn hefyd yn adlewyrchu anghenion newidiol pobl Cymru, mewn ymateb i Covid-19 pan mae unigrwydd yn ystod cyfnodau o hunan ynysu wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl pobl.

Cyngor Caerdydd
'Polisi Caffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol'
Yn seiliedig ar y Ddeddf, a gyrwyr polisi eraill, mae Cyngor Caerdydd yn amlinellu eu chwe blaenoriaeth gaffael a sut y cânt eu cyflawni trwy eu Polisi Caffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol, gan ddangos rôl bwysig caffael wrth gefnogi cyflawni'r Ddeddf. Enghraifft o hyn yw eu blaenoriaeth "amddiffyn yr amgylchedd, lleihau gwastraff, lleihau'r defnydd o ynni a defnyddio adnoddau eraill yn effeithlon" gan gefnogi eu hamcan llesiant "Rheoli Twf Poblogaeth Caerdydd mewn Ffordd Gadarn".

Cyngor Sir Caerfyrddin
"Enghraifft o'r Prosiect Adeiladu'
Ariannwyd gan raglen ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Defnyddiodd Cyngor Sir Caerfyrddin Fframwaith Contractau Rhanbarthol De Orllewin Cymru (SWWRCF) i ymgorffori'r broses o ddarparu buddion cymunedol a ffyrdd cynaliadwy o weithio. Yn nodedig, bydd y prosiect yn cyflawni ardystiad Passivhaus ac ardystiad 'rhagorol' BREEAM, gyda chyfrifon banc y prosiect (cyfrif banc wedi'i glustnodi y gwneir taliadau ohono yn uniongyrchol). Mae'r prosiect yn adeiladu ar y fframweithiau presennol ac yn dangos cysylltiadau clir â'r pum ffordd o weithio o fewn y Ddeddf yn ogystal ag amcanion llesiant yr awdurdod lleol.

Camau nesaf:

Mae angen dull strategol gyda chefnogaeth ac ymrwymiad uwch arweinwyr sy'n cydnabod y rôl y gall caffael ei chwarae wrth gefnogi cyflawni canlyniadau ehangach.

Syniadau Arloesol

Gallai cyrff cyhoeddus hepgor elfen brisiau'r broses dendro a gwneud tendrau ar fetrigau ansawdd 100% yn seiliedig ar y saith nod llesiant. Gall datblygwyr y sector cyhoeddus gyhoeddi eu cost a ragwelir ar gyfer y gwasanaeth / gwaith a gofyn i dendrwyr faint yn ychwanegol y gallant ei ddarparu y tu hwnt i set / manyleb ofynnol o ofynion. Mae'n dal i fod yn dendr cystadleuol, ond mae'n ansawdd nid yn bris.

Creu canolfan rhagoriaeth caffael adeiladu lle mae timau arbenigol yn arwain caffael ynghyd â'r holl adnoddau sydd ar waith, i gynorthwyo cysondeb a sicrhau'r budd mwyaf. Byddant yn gweithio i 'Safon Cymru' a fydd yn cynnwys gofynion a safonau ar gyfer adeiladu yn seiliedig ar y Ddeddf i yrru effeithlonrwydd, torri gwastraff allan ac adeiladu economi werdd ar gyfer y dyfodol.

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Canolfan Ragoriaeth Caffael ar gyfer gwella cydgysylltu, cydweithredu a darparu cefnogaeth ymarferol i gyrff cyhoeddus wrth iddynt arfer eu swyddogaethau caffael, yn benodol mewn perthynas â'r Ddeddf.

Adnoddau ac offer defnyddiol, a all eich helpu yn dilyn yr argymhellion hyn:

Adroddiad unwaith mewn pum mlynedd yw hon, sy'n nodi asesiad y Comisiynydd o'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r Ddeddf o fewn y cyfnod adrodd. Mae'n myfyrio ar gynnydd pob corff cyhoeddus o ran a ydynt wedi cofleidio'r newid diwylliannol sy'n ofynnol gan y Ddeddf a hefyd yn ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud ar bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol.

Mae Adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru 'Caffael Cyhoeddus Cynaliadwy' 2019 yn amlinellu sut i weithredu arferion caffael cynaliadwy.



Mae'r ddogfen hon yn ganlyniad gwaith a gomisiynwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru (y Ganolfan) gan Lywodraeth Cymru yng nghanol 2019. Y bwriad oedd i'r gwaith "ddylanwadu ar gomisiynwyr a chaffaelwyr i hyrwyddo cwmnïau cydweithredol a modelau gwerth cymdeithasol eraill".

Nod y ddogfen hon yw chwyddo lleisiau pobl ifanc wrth i ni agosáu at etholiad y Senedd yn 2021. Mae'n nodi'r argymhellion allweddol y mae'r Comisiynwyr am weld Llywodraeth nesaf Cymru yn ymrwymo iddynt. Mae hi wedi galw ar bob plaid wleidyddol i ystyried yr argymhellion hyn yn eu gwaith maniffesto.



Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer rôl caffael yng Nghymru, rôl bresennol caffael, ac enghreifftiau o arfer gorau.

National TOMs Wales
TOMs Cenedlaethol Cymru

Mae TOMs Cenedlaethol Cymru yn fframwaith ar gyfer mesur a rheoli gwerth cymdeithasol sy'n caniatáu datgloi gwerth cymdeithasol trwy ei integreiddio i gaffael a rheoli prosiectau. Mae'n ymgorffori holl ofynion y Pecyn Cymorth Buddion Cymunedol ac fe'i cynlluniwyd i ganiatáu i sefydliadau asesu eu cyfraniad gwerth cymdeithasol i'r Ddeddf Llesiant.

Cysylltiadau defnyddiol i'ch cefnogi chi i ddilyn yr argymhellion hyn:

wrap Cymru

Atebion SOLUTIONS

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

National Social Value Taskforce

gcc nps
y gwasanaeth caffael cenedlaethol
national procurement service

ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU
CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES

CLILC • WLGA